Teithiau Cerdded Archaeolegol 2018 - 19

Cyfres o deithiau'n crwydro tirwedd hanesyddol Gwynedd

Rhad ac am ddim

Archebu'n hanfodol
Cysylltwch â: Dan Amor
dan.amor@heneb.co.uk
01248 366970

N.B. Mae'r rhan fwyaf o'r teithiau hyn yn cynnwys llethrau serth a thirweddau geirwon

Moel Faban

Sul Gorffennaf 22ain 2018 10:00am

Ymchwilio'r archaeoleg cynhanesyddol sydd ar lethrau godidog Moel Faban yn Nyffryn Ogwen. Byddwn yn trin a thrafod datblygiad pellach y tirwedd sydd o gwmpas, gan roi sylw i'r sefydlu diwydiannol diweddarach a'r chwareli.

Pellter: 6.5km, 3 awr
Arweinydd y daith: Andrew Davidson
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Porth Penrhyn

Sul Medi 2il 2018 10:00am

Byddwn yn edrych ar archaeoleg Porth Penrhyn (Bangor), gan fanylu ar goredau pysgota canoloesol ac ymweld ag olion baddondy sy'n dyddio o'r 19eg Ganrif.

Pellter: 4.2km, 2.5 awr
Arweinyddion y daith: Andrew Davidson & Dave Hopewell
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Bangor

Sul Medi 23ain 2018
(Hefyd yn rhan o Drysau Agored 2018) 10:00am

Ymweld â'n swyddfeydd cyn mentro ar daith o amgylch Bangor fydd yn ein tywys heibio safle'r Ffrierdy a thua Hirael, i fyny'r Stryd Fawr at y Gadeirlan ac yn ôl ar hyd Ffordd y Garth.

Pellter: 5km, 2.5 awr
Arweinyddion y daith: Andrew Davidson & Rob Evans
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Porthaethwy

Sul Tachwedd 4ydd 2018 10:30am, 2:30pm

Ymweliad â chofadail y Rhyfel Mawr a ddyluniwyd gan y pensaer a'r archaeolegydd amatur lleol Harold Hughes, ac sydd yn sefyll gerllaw Eglwys St Tysilio ar Ynys Tysilio. Rhan o'n prosiect recordio coffau Y Rhyfel Byd Cyntaf.

Pellter: 4km, 2 awr
Arweinydd y daith: Rob Evans
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Dolgellau

Sul Chwefror 24ain 2019 10:00am

Dewch i ryfeddu at batrwm afreolaidd strydoedd Dolgellau a phensaernïaeth werinol y dref. Awn i ymweld â'r eglwys hefyd, cyn ystyried dylanwad Syr Robert Vaughan o Nannau ar ddatblygiad y dref.

Pellter: 5km, 2.5 awr
Arweinyddion y daith: Andrew Davidson & Rob Evans
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Tre'r Ceiri

Sul Mawrth 24ain 2019 10:00am

Ymweliad â Thre'r Ceiri (Pen Llŷn), bryngaer Oes yr Haearn sydd ymysg y gorau eu cyflwr trwy Brydain ben baladr. Tra byddwch yno, mwynhewch rai o olygfeydd mwyaf godidog Gogledd Cymru.

Pellter: 5.5km, 3 awr
Arweinydd y daith: Dave Hopewell
Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd

Cyflwynir y teithiau hyn trwy gyfrwng y Saesneg



Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd
Gwynedd Archaeological Trust